

Rebecca Evans AC / AM  
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd  
Deputy Minister for Farming and Food



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/RE/1577/16

Aelodau'r Cynulliad

30 Mawrth 2016

Annwyl gyfeillion,

Fel yr addawyd yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ar 9 Mawrth, gweler yn amgaaedig bapur sy'n rhestru rhai enghreifftiau o'n portffolio Cyfoeth Naturiol sydd wedi elwa ar arian o'r UE.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AC / AM**  
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd  
Deputy Minister for Farming and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400  
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Rhai enghreifftiau o'r portffolio Cyfoeth Naturiol sydd wedi elwa o gyllid yr UE



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

## Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

- Dros y 6 blynedd diwethaf mae ein Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi elwa ar oddeutu **£47m** gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.
- Daeth y rhaglen hon i ben yn ddiweddar a bydd y gwaith o'i gwerthuso'n dechrau'n fuan. Rydym eisoes yn gwybod, fodd bynnag, fod y targedau wedi'u cyflawni ac yn wir bod mwy na'r disgwyl wedi'i gyflawni.
- Mae gan y Rhaglen ddau darged: 20 o gynlluniau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol a lleihau perygl llifogydd i 2,700 eiddo. Y llwyddiannau sydd wedi'u cofnodi hyd yma: mae 40 o gynlluniau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol wedi'u cwblhau ac mae dros **8,800 eiddo** yn wynebu llai o berygl llifogydd.
- Rydym wedi mwy na threblu targedau ein rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n golygu bod 2,700 o gartrefi a busnesau'n wynebu llai o berygl llifogydd, a bod dros 8,835 eiddo (gan gynnwys dros 7,500 o gartrefi), seilweithiau a chysylltiadau trafniadaeth mawr yn wynebu llai o berygl llifogydd.
- Mae llawer o'r cynlluniau sy'n rhan o raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi'u defnyddio fel enghreifftiau o arferion gorau oherwydd eu bod yn tynnu sylw at yr holl fanteision a all ddeillio o fuddsoddi mewn seilwaith amddiffyn rhag llifogydd ac erydu arfordirol.
- Wedi cwblhau rhaglen ERDF ym mis Mehefin 2015, gwelodd **1,327 o fusnesau** bod eu risg o lifogydd wedi lleihau. Mae cynllun Bae Colwyn, a gafodd gyllid rhannol drwy raglen ERDF hefyd yn enghraifft o ble y gall amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir roi cyfle i ddatblygu a chreu swyddi. Mae'r ganolfan chwaraeon dŵr ac adfywio cysylltiedig sydd wedi eu hadeiladu o ganlyniad i'r rhaglen amddiffyn yr arfordir wedi creu 30 o swyddi sy'n gyfwerth â llawnamser.
- Roedd gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ym mis Tachwedd 2012 yn amcangyfrif y bydd **930 o swyddi** wedi'u cynorthwyo neu eu creu ledled Cymru o ganlyniad i'r gwaith adeiladu i reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol dros 3 blynedd. Bydd yr amcangyfrifon diweddaraf o'r effaith economaidd yn cael eu cynnwys o fewn y gwerthusiad olaf o'r rhaglen.

## Ffermio

- Cyfrannodd Ewrop **£311m** tuag at Gynllun Datblygu Gwledig 2007-2013. Golygodd hyn, ar y cyd â chyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, fod cronfa o £860m ar gael. Elwodd Cymru'n fawr ar y cyllid hwn. Yn ystod y cyfnod 2014-2020 bydd yn buddsoddi tua **£490m** yng Nghymru o dan Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru sef rhaglen Cymru gyfan sy'n sicrhau bod saith nod 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r UE ar gyfer datblygu gwledig. Mae'r ffaith bod yr UE a Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid yn golygu ein bod bron yn dyblu'r swm hwnnw, gan greu cronfa hyd yn oed yn fwy ar gyfer cefnogi gwahanol weithgareddau sy'n ceisio gwella cynaliadwyedd a chydnerthedd ein hamgylchedd naturiol a'n cymunedau gwledig.



Ynni

Cartrefi

Gwastraff

Llifogydd

Arfordirol

Cynllunio

Ein Tir

Moroedd

Bwyd

Dyfodol

• Darparodd yr UE **£210m** yn 2015 ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol i **15,500 o fusnesau fferm** yng Nghymru.

• Mae ein cynlluniau Glastir, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd, dal carbon, rheoli dŵr a bioamrywiaeth, wedi sicrhau bod dros 1m ha o dir bellach o dan reolaeth weithredol ar 6,500 o ffermydd, ac mae gwerth **€20m** o grantiau wedi mynd i'r afael yn benodol ag effeithlonrwydd ynni a dŵr a rheoli sylri;

• O safbwynt economïau a chymunedau gwledig, **cafodd 397 o brosiectau eu cefnogi**, gan gynnwys 100 prosiect LEADER ar gyfer anghenion lleol. Llwyddwyd i greu 1,484 o swyddi, a oedd lawer yn uwch na'r disgwyl.

• Mae ffermio yng Nghymru'n elwa ar werth oddeutu **€300m** o gymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd bob blwyddyn. Ar draws ffermydd o bob math, roedd cymorthdaliadau'n cyfrif, ar gyfartaledd, am 81% o Incwm Busnesau Fferm yn 2014/15. Roedd ychydig dros hanner bob fferm un ai'n gwneud colled neu byddent wedi gwneud colled oni bai am y cymhorthdal.

## Bwyd

• Mae gwerth **£270m** o fwyd a diod o Gymru'n cael eu hallforio. Mae aelodaeth o'r UE yn rhoi mynediad digyfng i gynhyrchwyr Cymreig at Farchnad Sengl Ewropeaidd a all gynnig 500m o gwsmeriaid posibl.

• Mae Hybu Cig Cymru wedi llwyddo i sicrhau cyllid Ewropeaidd ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo ddwywaith. Ym mis Chwefror 2015 cychwynnodd rhaglen gwerth **€4.1m**. Cyfrannodd y Comisiwn Ewropeaidd hanner cost yr ymgyrch.

• Llwyddodd cyllid wedi'i dargedu i atgyfnerthu'r agweddau gwerth ychwanegol ar ein diwydiant bwyd. Crewyd gwerth €33m o Werth Ychwanegol Gros drwy grantiau o €105m ar gyfer 191 o fusnesau bach a chanolig, a chadwyni cyflenwi byrach a mwy effeithlon i 33 o brosiectau cydweithredol.

## Y Rhaglen Dileu TB mewn Gwartheg

• Ers i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo Cynlluniau Dileu TB y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyfanswm o **£15.17m** rhwng 2010 a 2014.

• Mae'r Comisiwn hefyd wedi neilltuo **€31m** i'r DU bob blwyddyn ar gyfer Cynlluniau Dileu TB 2015 a 2016. Caiff y cyllid ei rannu'n gymesur rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a hynny ar sail gweithgareddau dileu TB ymhob gwlad. Mae'r costau sy'n gymwys o safbwynt hawlio ad-daliad gan y Comisiwn (hyd at derfyn) yn cynnwys costau profion TB ac iawndal am wartheg a gaiff eu difa o dan y Rhaglen Dileu TB.

• Mae'r cyllid hwn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi mewn mesurau sy'n cael effaith bositif ar nifer yr achosion o TB a gaiff eu cofnodi yng Nghymru:

- Mae cynlluniau fel profi yr holl wartheg yng Nghymru bob blwyddyn am TB yn canfod achosion o'r clefyd yn gynharach, gan ei gwneud hi'n haws i sicrhau nad yw'n lledu;
- Mae rhaglen filfeddygol Cymorth TB yn cynnig cymorth milfeddygol i ffermwyr os oes achos o TB o fewn eu buches, fel bod modd i'r fuches fod yn glir o'r clefyd cyn gynted â phosibl;
- Arolwg o'r moch daear a geir yn farw yng Nghymru fel bod gennym well darlun o statws moch daear o safbwynt clefydau ar draws y wlad;
- Buddsoddiad mewn gwell ymchwiliadau epidemiolegaidd o safbwynt achosion o TB mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru; pennu tueddiadau fel y gall polisïau gael eu teilwra i gyd-fynd ag amodau'r ardaloedd penodedig.

